Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Natur a Ni
Nature and Us

# Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni
# Atodiad 1: Recriwtio

**Awduron: Centre for Deliberative Research**

**Wedi'i baratoi ar gyfer: Cyfoeth Naturiol Cymru**

**Dyddiad: Mai 2023**

# Atodiad 1: Recriwtio

Mae'r atodiad hwn yn darparu manylion llawn y broses recriwtio a gynhaliwyd gan y Sortition Foundation. Mae'n cynnwys y llythyr gwahoddiad a anfonwyd at yr holl ddarpar gyfranogwyr, y sgript ffôn a ddefnyddiwyd i gadarnhau presenoldeb a'r adroddiad recriwtio llawn a baratowyd gan y Sortition Foundation sy'n amlinellu'r dull recriwtio a'r sampl terfynol.

4 January, 2023
Dear Resident,

You **could be one of 50 people** selected to take part in the **Nature and Us Citizens' Assembly** answering the important question:

**What future do we want for our natural environment in Wales?**

**Nature and Us** has been involving the people of Wales in a national conversation about the future of our natural environment. The aim is to develop a shared vision for our natural environment in the year 2050 and consider the changes we need to make leading up to 2030 and 2050, as individuals and as a country. The vision will help build and guide action to create an environment that works for nature and for everyone in Wales.

Natural Resources Wales is facilitating this national conversation. We are the principal adviser to the Welsh Government about issues relating to the Welsh environment and natural resources, at a local, national, and global level.

The **Nature and Us Citizens' Assembly** will be on **February 11th, March 4th or 5th, and March 18th**. The first get together will be online, the second face-to-face and the third online. You need to attend all three sessions and if you take part **we will give you £260 as a thank you for your time**.

**You don't need any prior knowledge to take part in the assembly**; all we require from you is a willingness to listen to the information presented and share your opinions with us and your fellow Welsh residents. We want to hear from a real cross-section of people from all over Wales, so if your household has received this letter then **you are the right person to take part**!

Everyone aged 16 and over who lives at this address can register their interest by visiting www.sortitionfoundation.org/**natureandus** or by calling Freephone **0800 009 6486**. The deadline to register is **Monday 16 January**. More details about the assembly are available overleaf.

**This is a fantastic opportunity for you to help shape the future of the Welsh natural environment**. We hope that you will be interested in joining the assembly and we look forward to hearing from you.

Yours faithfully,

Sir David Henshaw Clare Pillman
**Chairman of Natural Resources Wales** **Chief Executive of Natural Resources Wales**

4 Ionawr, 2023

Annwyl Breswylydd,

**Gallech chi fod yn un o 50 o bobl** a ddewisir i gymryd rhan yng **Nghynulliad Dinasyddion Natur a Ni** i ateb y cwestiwn pwysig:

**Pa ddyfodol ydyn ni eisiau ar gyfer ein hamgylchedd naturiol yng Nghymru?**

Mae **Natur a Ni** wedi bod yn cynnwys pobl Cymru mewn sgwrs genedlaethol am ddyfodol ein hamgylchedd naturiol. Y nod yw datblygu cydweledigaeth ar gyfer ein hamgylchedd naturiol yn y flwyddyn 2050 ac ystyried y newidiadau y mae angen i ni eu gwneud hyd at 2030 a 2050, fel unigolion ac fel gwlad. Bydd y weledigaeth yn helpu i adeiladu ac arwain camau gweithredu i greu amgylchedd sy'n gweithio ar ran natur a phawb yng Nghymru.

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn hwyluso'r sgwrs genedlaethol hon. Ni yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru, ar lefel leol genedlaethol a byd-eang.

Bydd **Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni** yn digwydd ar **Chwefror 11, Mawrth 4 neu 5, a Mawrth 18**. Bydd y cyfarfod cyntaf ar-lein, yr ail wyneb yn wyneb a'r trydydd ar-lein. Mae angen i chi fynychu pob un o'r tair sesiwn ac os byddwch yn cymryd rhan **byddwn yn rhoi £260 i chi fel diolch am eich amser**.

**Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol arnoch i gymryd rhan yn y cynulliad**; y cyfan rydym yn gofyn amdano yw eich parodrwydd i wrando ar y wybodaeth a gyflwynir a rhannu eich barn gyda ni a phreswylwyr eraill o Gymru. Rydym eisiau clywed gan drawstoriad go iawn o bobl o bob rhan o Gymru,felly os yw'r llythyr yma wedi cyrraedd eich aelwyd chi yna **chi yw'r person iawn i gymryd rhan!**

Gall pawb 16 oed a throsodd sy'n byw yn y cyfeiriad hwn gofrestru eu diddordeb drwy fynd i www.sortitionfoundation.org/**naturani** neu drwy ffonio'r rhif Rhadffôn **0800 009 6486**. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw **dydd Llun 16 Ionawr**. Mae rhagor o fanylion am y cynulliad ar gael dros y dudalen.

Mae hwn yn gyfle gwych i chi helpu i lunio dyfodol amgylchedd naturiol Cymru. Gobeithiwn y bydd gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r cynulliad ac edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Syr David Henshaw
**Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru**

Clare Pillman
**Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru**

# Frequently asked questions:
# Nature and Us Citizens' Assembly

**What is a Citizens' Assembly?**

Citizens' Assemblies are used all across the world to involve people in decision-making. They bring together a randomly selected group of people who broadly represent the entire community. These people learn about issues, discuss them with one another, and then make recommendations about what should happen and how things should change.

**Who is running the event?**

The **National Centre for Social Research (NatCen)'s Centre for Deliberative Research** is part of Britain's largest social research organisation, and generates evidence that policy makers and citizens can use to inform, engage with and transform complex social issues. **www.natcen.ac.uk**

The **Sortition Foundation** is a not-for-profit organisation that specialises in recruiting people by lottery to take part in these kinds of events, in a way that is broadly representative of the wider population. **www.sortitionfoundation.org**

**What are the dates and times of the sessions?**

- **11 February** (online), 5 hours
- **4 March** in Swansea Bay, or **5 March** in Wrexham (in person), 12-5pm
- **18 March** (online), 3 hours

**What will taking part involve?**

If you are selected to take part you will have the opportunity to meet with individuals from all walks of life from across Wales. You will hear from engaging speakers, and you will discuss the issues involved and the possible ways forward. You will be mainly working in small groups with facilitators to make sure everyone has their voice heard. You do not need to have any prior knowledge of the topics - all the information you need will be provided during the meetings.

**How will you ensure that the event is accessible?**

If you are selected to take part, **you will receive £260** to compensate you for your time.

The in-person meeting will be held at an accessible venue with a prayer room and quiet space available, and you will be given coffee/tea, lunch, and transport expenses. We will support everyone who needs digital devices and/or an internet connection for use during the online meetings, and will support you before and during the assembly meetings in every way we can to help you join in.

If you require any form of additional support, for example translation, or support with accessibility issues, childcare, or other caring

# Frequently asked questions:
# Nature and Us Citizens' Assembly

responsibilities, then every attempt will be made to provide this. If you are selected please just let us know about your specific requirements when we contact you.

**Who can apply?**

**Everyone aged 16 and over**, who is normally resident in Wales and who lives full or part time at the address that has received this invitation can apply, with a few exceptions set out below. Please note that a maximum of one person from any single household can participate.

**The following people cannot apply**: Elected representatives from any level of government; paid employees of any political party; council employees working in a politically restricted post; or any member of NRW staff.

**How was I selected to receive this invitation?**

Your household was one of 15,000 addresses in Wales that was randomly selected from the Royal Mail address database.

**After I register my interest, what happens next?**

Once registration has closed, 50 people will be selected by lottery from everyone who registered their interest, to take part in the event. This random selection will be weighted to make sure that there are people from all across the community attending.

If you are selected, we will contact you by phone and email on or around Tuesday 17 January to let you know. We will then arrange a quick phone call with you to confirm that you can attend, discuss any requirements you may have to make it possible for you to attend, and explain what happens next.

**What will happen after the event?**

The outcomes of the assembly will be presented to Natural Resources Wales and the Welsh Government jointly in Spring 2023. They will directly shape the vision for our natural environment in Wales, the actions we take collectively with citizens for both nature and for people, and will guide how NRW and other organisations work.

**Where can I get more information?**

If you would like to talk to someone about the assembly before registering, please call the Freephone number below.

FSC® www.fsc.org
MIX
Board from responsible sources
FSC® C044071

To register your interest visit:
**www.sortitionfoundation.org/natureandus**
or call Freephone **0800 009 6486**
(8am-10pm Monday to Friday, 9am-6pm on Saturday & Sunday)
by **Monday 16 January**

# Cwestiynau cyffredin: Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni

**Beth yw Cynulliad Dinasyddion?**

Defnyddir Cynulliadau Dinasyddion ar draws y byd i gynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau. Maent yn casglu grŵp o bobl a ddewiswyd ar hap sydd, at ei gilydd, yn cynrychioli'r gymuned gyfan. Mae'r bobl hyn yn dysgu am faterion, yn eu trafod gyda'i gilydd ac yna'n gwneud argymhellion am yr hyn a ddylai ddigwydd a sut y dylai pethau newid.

**Pwy sy'n rhedeg y digwyddiad?**

Mae **Canolfan Ymchwil Ymgynghori'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol** (NatCen) yn rhan o sefydliad ymchwil gymdeithasol mwyaf Prydain, ac mae'n cynhyrchu tystiolaeth y gall llunwyr polisi a dinasyddion ei defnyddio i lywio, trin a thrawsnewid materion cymdeithasol cymhleth. **www.natcen.ac.uk**

Sefydliad dielw yw **Sefydliad Sortition** sy'n arbenigo mewn recriwtio pobl drwy loteri i gymryd rhan yn y mathau hyn o ddigwyddiadau, mewn ffordd sy'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach yn fras. **www.sortitionfoundation.org**

**Beth yw dyddiadau ac amseroedd y sesiynau?**

- **11 Chwefror** (ar-lein), 5 awr
- **4 Mawrth** Bae Abertawe, neu **5 Mawrth** Wrecsam, (wyneb yn wyneb) 12-5pm
- **18 Mawrth** (ar-lein), 3 awr

**Beth fydd cymryd rhan yn ei olygu?**

Os byddwch yn cael eich dewis i gymryd rhan, fe gewch gyfle i gwrdd ag unigolion o bob cefndir o bob rhan o Gymru. Byddwch yn clywed gan siaradwyr diddorol, a byddwch yn trafod y materion dan sylw a'r ffyrdd posib ymlaen. Byddwch yn gweithio'n bennaf mewn grwpiau bach gyda hwyluswyr i sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed. Nid oes angen i chi feddu ar unrhyw wybodaeth flaenorol am y pynciau - bydd yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch yn cael ei darparu yn ystod y cyfarfodydd.

**Sut fyddwch chi'n sicrhau bod y digwyddiad yn hygyrch?**

Os cewch eich dewis i gymryd rhan, **byddwch yn cael £260** i ddiolch i chi am eich amser.

Bydd y cyfarfod wyneb-yn-wyneb yn digwydd mewn lleoliad hygyrch gydag ystafell weddïo a lle tawel ar gael, a byddwch yn cael coffi/te, cinio a chostau trafnidiaeth.

Byddwn yn cefnogi pawb sydd angen dyfeisiau digidol a/neu gysylltiad rhyngrwyd i'w defnyddio yn ystod y cyfarfodydd ar-lein, a byddwn yn eich cefnogi cyn ac yn ystod cyfarfodydd y cynulliad ym mhob ffordd y gallwn, i'ch helpu i ymuno. Os ydych angen unrhyw fath o gefnogaeth ychwanegol, er enghraifft cyfieithu, neu gefnogaeth gyda materion hygyrchedd, gofal

I gofrestru eich diddordeb ewch i:
**www.sortitionfoundation.org/naturani** neu
dros y ffôn ar Radffôn **0800 009 6486**
(8yb-10yh dydd Llun i Gwener, 9yb-6yh dydd Sadwrn i Sul)
**dydd Llun 16 Ionawr**

plant, neu gyfrifoldebau gofal eraill, yna gwneir pob ymdrech i ddarparu hyn. Os cewch eich dewis, rhowch wybod i ni am eich gofynion penodol pan fyddwn yn cysylltu â chi.

**Pwy all wneud cais?**

**Gall pawb sy'n 16 oed a throsodd**, sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru ac sy'n byw'n llawn amser neu'n rhan amser yn y cyfeiriad sydd wedi cael y gwahoddiad hwn wneud cais, gyda rhai eithriadau a nodir isod. Sylwch y gall uchafswm o un person o unrhyw aelwyd unigol gymryd rhan.

**Ni all y bobl ganlynol wneud cais**: Cynrychiolwyr etholedig o unrhyw lefel o lywodraeth; gweithwyr cyflogedig unrhyw blaid wleidyddol; gweithwyr cyngor sy'n gweithio mewn swydd â chyfyngiad gwleidyddol; neu unrhyw aelod o staff CNC.

**Sut gefais i fy newis i gael y gwahoddiad hwn?**

Roedd eich aelwyd yn un o 15,000 o gyfeiriadau yng Nghymru a ddewiswyd ar hap o gronfa ddata cyfeiriadau'r Post Brenhinol.

**Ar ôl i mi gofrestru fy niddordeb, beth sy'n digwydd nesaf?**

Unwaith y bydd y cam cofrestru wedi dod i ben, bydd 50 o bobl yn cael eu dewis trwy loteri o blith pawb a gofrestrodd eu diddordeb i gymryd rhan yn y digwyddiad. Bydd y dewis hwn ar hap ac yn cael ei bwysoli i wneud yn siŵr bod yna bobl o bob rhan o'r gymuned yn mynychu.

Os cewch eich dewis, byddwn yn cysylltu â chi dros y ffôn ac e-bost ddydd Mawrth 17 Ionawr, neu o gwmpas y dyddiad hwnnw, i roi gwybod i chi. Yna byddwn yn trefnu galwad ffôn gyflym gyda chi i gadarnhau y gallwch fynychu, trafod unrhyw ofynion a allai fod gennych i'w gwneud yn bosib i chi fynychu, ac egluro beth sy'n digwydd nesaf.

**Beth fydd yn digwydd ar ôl y digwyddiad?**

Bydd canlyniadau'r cynulliad yn cael eu cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ar y cyd yng ngwanwyn 2023. Byddant yn llywio'n uniongyrchol y weledigaeth ar gyfer ein hamgylchedd naturiol yng Nghymru, y camau a gymerwn ar y cyd â dinasyddion ar gyfer natur a phobl, a byddant yn llywio sut mae CNC a sefydliadau eraill yn gweithio.

**Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?**

Os hoffech siarad â rhywun am y cynulliad cyn cofrestru, ffoniwch y rhif Rhadffôn isod.


MIX
Board from responsible sources
FSC® C044071
www.fsc.org

# Adroddiad recriwtio: Natur a Ni

Sefydliad Sortition, 31 Ionawr 2023


Ar 23 Ionawr 2023, trosglwyddwyd manylion 52 o drigolion Cymru i drefnwyr **Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni**. Bydd y 52 unigolyn yma yn cyfarfod, ar-lein ac wyneb yn wyneb, ar bedwar achlysur gwahanol ym mis Chwefror a mis Mawrth 2023 i ystyried y cwestiwn

**Pa fath o ddyfodol ydym ni ei eisiau ar gyfer ein hamgylchedd naturiol yng Nghymru?**

Y Sefydliad Sortition a gafodd y dasg o recriwtio'r 52 aelod cynulliad hyn. Buom yn gweithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Cymdeithasol a Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni hyn. Isod rydym yn disgrifio manylion y broses recriwtio hon yn fras; dilynodd y broses ein templed didoli dau gam safonol, yn unol ag egwyddorion arferion dar Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar gyfer prosesau cydgynghorol ar gyfer gwneud penderfyniadau cyhoeddus.

## Cam 1

Dewiswyd 15,000 o gyfeiriadau ar hap o bob rhan o Gymru (ychydig llai na 300 o gyfeiriadau ar gyfer pob un o'r 52 aelod cynulliad a oedd eu hangen). Derbyniodd pob un o'r cyfeiriadau hyn lythyr yn y post yn gwahodd trigolion i gofrestru fel aelodau posibl o'r cynulliad hinsawdd. Rydym wedi sylwi yn y gorffennol bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn tueddu i fod yn llai tebygol o ymateb i wahoddiadau o'r math hwn, felly pwysleisiwyd y dewis ar hap fel a ganlyn: Dewiswyd 80% o'r cyfeiriadau o Gymru gyfan; Dewiswyd 20% o'r cyfeiriadau o ardaloedd mwy difreintiedig Cymru yn benodol. Dyma fap yn dangos y 15,000 o gyfeiriadau:




Roedd y gwahoddiad yn cynnwys y cerdyn crynodeb canlynol (yn ogystal â llythyr a chwestiynau cyffredin), gyda'r holl ddeunydd yn Gymraeg a Saesneg:







Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn derbyn £260 fel cydnabyddiaeth o'r amser a'r egni sylweddol y mae'r broses yn gofyn amdano. Roedd y gwahoddiadau ar agor am dair wythnos, ac ar ddiwedd y cyfnod hwn roedd oddeutu 330 o bobl wedi cofrestru fel aelodau cynulliad posibl.

**Cam 2**

Fel rhan o'r weithdrefn gofrestru, roedd yn ofynnol i bob cyfranogwr posibl rannu ychydig o wybodaeth sylfaenol amdanynt eu hunain. Gofynasom iddynt rannu eu cyfeiriad, eu dyddiad geni, eu rhywedd, eu hethnigrwydd a gwybodaeth am eu galwedigaeth. Gofynasom hefyd a fyddent yn disgrifio eu hunain fel rhywun a oedd ag anabledd. Yn olaf, gofynasom, "Yn ystod y 12 mis diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi treulio eich amser rhydd yn yr awyr agored mewn mannau gwyrdd a naturiol ar gyfartaledd?" Gofynnwyd y cwestiwn er mwyn sicrhau ystod eang o safbwyntiau cychwynnol ar y pwnc penodol yr oedd angen i'r Cynulliad ei drafod.

Yna defnyddiwyd yr wybodaeth hon fel mewnbwn i "algorithm didoli"; proses oedd hon o ddewis ein 52 aelod cynulliad ar hap o'r gronfa o 330 o ddarpar aelodau er mwyn sicrhau bod gennym sampl **gynrychioliadol** (felly, er enghraifft, mae proffil oedran aelodau'r cynulliad hinsawdd yn weddol debyg i broffil oedran poblogaeth Cymru gyfan). Gellir dod o hyd i fanylion yr algorithm penodol yr ydym yn ei ddefnyddio, gan gynnwys gwybodaeth am degwch yr algorithm yma.

Yn ogystal â'r wybodaeth am rywedd, oedran, ethnigrwydd, anabledd a phryder hinsawdd a grybwyllwyd uchod, fe wnaethom hefyd ddefnyddio cyfeiriad pob ymatebydd i gyrraedd dau darged pellach:

- **Trefol/gwledig**: defnyddiwyd ystadegau'r llywodraeth i ddosbarthu pob cyfeiriad i ardal drefol neu wledig, a sicrhaodd ein algorithm didoli bod gennym niferoedd cynrychioliadol o bob un yn y cynulliad.
- **Daearyddiaeth**: Defnyddiwyd gwybodaeth am ddosbarthiad poblogaeth Cymru gennym i sicrhau bod y bobl a ddewiswyd yn cynrychioli pob ardal yng Nghymru, yn gymesur â'r boblogaeth yn yr ardaloedd hynny.

Mae manylion y broses ddethol ar gyfer y gwasanaeth hwn wedi'u crynhoi yn y siartiau cylch sydd ynghlwm ar ddiwedd y ddogfen hon.

Gellir dehongli'r siartiau cylch hyn fel a ganlyn:

- **Colofn 1 (Targed)**: Mae'r siartiau cylch hyn yn rhoi gwybodaeth am boblogaeth Cymru gyfan, gan ddefnyddio ystadegau amrywiol sydd ar gael i'r cyhoedd (er enghraifft drwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol). Er enghraifft, yn y siart cylch **OEDRAN** cyntaf, gallwch weld bod 31.3% o boblogaeth Cymru rhwng 45 a 64 mlwydd oed.
- **Colofn 2 (Ymatebwyr)**: Mae'r siartiau cylch hyn yn crynhoi'r wybodaeth a ddarparwyd i ni gan y 330 o bobl a gofrestrodd fel cyfranogwyr posibl. Mae'r ystadegau'n gogwyddo ychydig yma o'u cymharu â'n targed: er enghraifft, sylwer bod gan gyfran uwch o'r ymatebwyr alwedigaeth a ddosberthir fel "Rheolwr/gweithiwr proffesiynol" o gymharu â'r hyn y byddai rhywun yn ei ddisgwyl ymysg y boblogaeth.
- **Colofn 3 (Dewis Gwreiddiol)**: Mae'r golofn hon yn rhoi gwybodaeth am y 52 unigolyn cyntaf a ddewiswyd gan yr algorithm. Cysylltwyd â'r bobl hyn yn unigol dros y ffôn i gadarnhau eu cyfranogiad. Tynnodd rhai yn ôl o'r broses

ar y pwynt hwn, gan fod ganddynt ymrwymiadau amrywiol a olygai na allent gymryd rhan.

- **Colofn 4 ( Cadarnhau'r rhai a ddewiswyd)**: Mae'r siartiau cylch hyn yn crynhoi gwybodaeth am y 52 a gadarnhawyd i gymryd rhan yn y cynulliad. Sylwch, diolch i'n defnydd o algorithm didoli, mae'r siartiau cylch yn y golofn hon yn debyg iawn i'r siartiau targed yn y golofn gyntaf. Fel rhan o'n proses recriwtio, cysylltwyd â'r holl bobl hyn dros y ffôn er mwyn cadarnhau eu bod dal yn fodlon ac yn gallu cymryd rhan -- os nad oeddynt, fe wnaethom ddefnyddio'r algorithm didoli i ddewis unigolion eraill yn eu lle a oedd yn rhannu nodweddion tebyg.

I'w gwneud yn fwy darllenadwy, rydym wedi dileu'r allwedd o'r siartiau galwedigaeth ac ethnigrwydd. Mae'r allweddau fel a ganlyn:

**Swydd:**

| | |
|---|---|
| A | Rheolwr/cyfarwyddwr/gweithiwr proffesiynol |
| B | Gweinyddol/ysgrifenyddol/crefftau medrus |
| C | Gofal/hamdden/gwasanaeth/gwerthu |
| D | Gweithredwr peirianwaith neu beiriannau/galwedigaeth elfennol |
| E | Ddim yn y gweithlu (wedi ymddeol) |
| F | Ddim yn y gweithlu (arall) |

















**Ethnigrwydd**













| | |
|---|---|
| A | Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig |
| B | Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd |
| C | Grwpiau ethnig cymysg neu luosog |
| D | Gwyn, Gwyn Cymreig neu Gwyn Prydeinig |
| E | Grwpiau ethnig eraill |

Sylwch, ar gyfer rhai grwpiau lle’r oedd y cyfrannau’n fach iawn, gwnaed ychydig o “or-recriwtio” er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o bobl yn y cynulliad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol, yn yr achos hwn, i **ethnigrwydd** lle teimlwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod cynrychiolaeth resymol o nifer o grwpiau ethnig lleiafrifol.

Nid oes siart gylch ar gyfer y cwestiwn parthed yr amser a dreulir mewn mannau gwyrdd. Er mwyn ymdrin â’r ymatebion yma rydym wedi defnyddio gwybodaeth reoli sy’n deillio o ystadegyn sydd ar ddod o’r Arolwg Pobl a Natur (PaNs) er mwyn meincnodi a dilysu cyfansoddiad y cynulliad dinasyddion -- unwaith eto, rydym wedi dewis cyfranogwyr ar gyfer y cynulliad yr oedd eu hatebion yn adlewyrchu atebion poblogaeth Cymru.

## Siartiau cylch

| | Targed | Ymatebwyr | Wedi'u dewis (Gwreiddiol) | Wedi'u dewis (Cadarnhawyd) |
|---|---|---|---|---|
| **Rhywedd** |   |   |   |   |
| **Oedran** |   |   |   |   |
| **Ethnigrwydd** |   |   |   |   |
| **Anabledd** |   |   |   |   |

| | Target | Respondents | Selected (Original) | Selected (Confirmed) |
|---|---|---|---|---|
| **Occupation** |   |   |   |   |
| **Geography** |   |   |   |   |
| **Urban/ rural** |   |   |   |   |

**Sgript**
Helô, [enw] sydd yna?

Helô! [enw] ydw i ac rwy'n rhan o'r tîm sy'n trefnu Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni.

*[os yw'n llinell dir, efallai na fyddant yn gwybod eu bod wedi'u dewis eto – "Rwy'n galw i roi gwybod ichi eich bod wedi'ch dewis i fynychu'r digwyddiad – llongyfarchiadau!"]*

Llongyfarchiadau ar gael eich dewis! Ydy hwn dal yn amser da i siarad am bum munud?

Rydw i'n mynd i fynd trwy ychydig o gwestiynau a siarad trwy ychydig o wybodaeth am y digwyddiad – does dim rhaid i chi gymryd nodiadau; byddwch yn derbyn pecyn gwybodaeth ar ôl yr alwad gyda'r holl fanylion y gallai fod eu hangen arnoch.

I grynhoi, diben y digwyddiad hwn yw clywed eich barn am ba ddyfodol yr ydym ei eisiau ar gyfer ein hamgylchedd naturiol yng Nghymru. Mae'n ddigwyddiad ar-lein ac wyneb yn wyneb, gyda thair sesiwn, pob un ar ddiwrnod ar wahân, yn cael eu cynnal dros fis Chwefror a mis Mawrth. Yn ystod y sesiynau, byddwch yn clywed gwybodaeth am y materion sy'n effeithio ar ein hamgylchedd naturiol, ac yn treulio amser yn eu trafod, a ffyrdd posibl ymlaen, gyda chyfranogwyr eraill. Byddwch mewn grwpiau bach, gyda hwyluswyr i wneud yn siŵr bod pawb yn cael eu clywed. Erbyn diwedd y sesiynau, bydd y cyfranogwyr wedi llunio rhai argymhellion allweddol, a bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ar y cyd yng ngwanwyn 2023.

Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol arnoch i gymryd rhan ac nid oes unrhyw waith paratoi y mae angen i chi ei wneud. Y cyfan sydd ei angen arnoch chi yw parodrwydd i wrando ar yr wybodaeth a gyflwynir ac i rannu eich barn yn rhydd gyda ni a'ch cyd-aelodau.

A yw hynny'n swnio'n fras fel yr hyn yr oeddech chi'n cofrestru ar ei gyfer?

Felly i wirio ddwywaith y byddwch yn gallu bod yn bresennol ym **mhob** sesiwn – a yw'r rhain yn eich dyddiadur yn barod neu a ddylwn i fynd drwyddynt? *(Os yw'r unigolyn yn gwybod na all fynychu neu mae'n debygol na all fynychu rhai sesiynau, mae hyn yn golygu **nad** yw'n gymwys; os ydyw'n poeni y **gallai** rhywbeth digwydd a fyddai'n ei atal rhag mynychu yna byddwn yn ei sicrhau ei fod yn gymwys, bod bywyd yn digwydd, ac y bydd yn cael sgwrs gyda'r sefydliad cyflawni bryd hynny.)*

- 11 Chwefror (ar-lein), 12pm – 5pm
- 4 Mawrth ym Mhrifysgol Abertawe, Campws y Bae, neu 5 Mawrth yn Groundwork Gogledd Cymru, Wrecsam (wyneb yn wyneb), 12pm – 5pm. Mae pobl mewn codau post LL/CH/SY yn mynd i Wrecsam, pawb arall i Abertawe.
- 18 Mawrth (ar-lein), 1pm – 4pm

Byddwch yn derbyn £260 mewn arian parod neu daleb am fynychu fel ffordd o ddiolch am roi o'ch amser. Oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y digwyddiad hyd yn hyn?

Iawn, dim ond ychydig o gwestiynau sydd gennyf i chi…

**Materion technegol**
Mae rhai o'r cyfarfodydd ar-lein a byddant yn defnyddio technoleg o'r enw **Zoom**, felly rwy'n mynd i ofyn rhai cwestiynau ichi am hynny fel y gallwn wneud yn siŵr bod gan

bawb y cymorth sydd ei angen arnynt. Gwyddom fod gan bawb lefelau gwahanol o sgiliau a hyder ar-lein, ac mae'n bwysig i ni nad yw hyn yn rhwystr i gymryd rhan. Nid prawf yw hwn ac ni fydd yn effeithio ar eich gallu i gymryd rhan yn y broses.

- Faint o brofiad sydd gennych chi o fod mewn cyfarfodydd fideo – llawer, ychydig neu ddim o gwbl?
- Oes gennych chi liniadur, cyfrifiadur neu lechen y gallech chi eu defnyddio i ymuno â'r galwadau fideo? *(Os nad oes gan rywun ddyfais addas, bydd rhywun yn cysylltu ag ef/hi ynglŷn â hyn. Os yw'n gyfrifiadur, gwiriwch fod ganddo feicroffon a chamera!)*
- Oes gennych chi gysylltiad rhyngrwyd band eang lle rydych chi? *(os na, bydd rhywun mewn cysylltiad)*
- Byddwch yn derbyn cyfarwyddiadau ymuno ar gyfer y galwadau yn y pecyn gwybodaeth a fydd yn cyrraedd yr wythnos nesaf, ac os byddai'n eich helpu, gallwn gael sgwrs un-i-un gyda chi cyn y digwyddiad i weld sut mae'n gweithio. Ydych chi'n meddwl yr hoffech chi gael sesiwn un-i-un gyda rhywun?

**Cymorth Arall / Hygyrchedd / Materion Deietegol**
A oes gennych unrhyw ofynion hygyrchedd eraill y dylem fod yn ymwybodol ohonynt i helpu i wneud i'r digwyddiad weithio i chi? Er enghraifft, iaith, clyw, golwg, neu gyfrifoldebau gofalu? *[Os felly, bydd rhywun yn cysylltu â chi i'w trafod.]* Cynhelir y sesiwn wyneb yn wyneb mewn lleoliad cwbl hygyrch.

A yw'n well gennych gymryd rhan yn Gymraeg neu Saesneg?

Oes gennych chi hyblygrwydd ynglŷn â mynd i Abertawe/Wrecsam? (cyfranogwyr dethol yn unig)

A oes gennych unrhyw ofynion deietegol y dylai'r bobl sy'n darparu ar gyfer y sesiwn wyneb yn wyneb wybod amdanynt?

**Pecyn Gwybodaeth**
Ar ôl yr alwad ffôn hon, y peth nesaf a fydd yn digwydd yw y byddwch yn clywed gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol – y sefydliad sy'n rhedeg y digwyddiad – erbyn diwedd yr wythnos nesaf. Bydd yn anfon pecyn cadarnhau atoch sy'n cynnwys mwy o fanylion ymarferol am sut y bydd y cyfarfodydd yn cael eu rhedeg. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw ran o'r wybodaeth pan fydd yn cyrraedd, yna bydd manylion cyswllt wedi'u cynnwys er mwyn i chi allu datrys unrhyw gwestiynau neu faterion yn y cyfnod cyn y cyfarfod cyntaf. A allaf wirio – a yw'n iawn os ydych yn cael yr wybodaeth hon trwy e-bost?

**[Felly – nawr gwiriwch gyfeiriadau post a/neu e-bost, gan gymryd y byddwn yn anfon e-bost at y rhan fwyaf o bobl.**

**Os oes problemau gydag anfon e-bost at yr unigolyn hwn yn gyffredinol, gwiriwch sut i gysylltu ag ef fel arfer, e.e. ffoniwch, a gwnewch nodyn. Nodwch unrhyw newidiadau i fanylion, e.e. e-bost / rhifau ffôn, oherwydd efallai y byddwn am ddiweddaru'r gronfa ddata ganolog gyda'r rhain]**

A allaf ateb unrhyw beth arall tra byddaf ar y ffôn, neu a ydych yn hapus i aros i'r wybodaeth fanwl gyrraedd?

Iawn, dyna bopeth. Braf siarad â chi – diolch am neilltuo amser i siarad â mi heddiw, ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich bod yn cymryd rhan yn y digwyddiad hwn.